

## Defnydd o ystafelloedd a gofod Llyfrgelloedd a Siopau Un Alwad

Mae Llyfrgelloedd a Siopau Un Alwad yn cynnig gofod o fewn y gymuned leol i drigolion Sir Ddinbych gael mynediad at, a derbyn, gwasanaethau a gwybodaeth am wasanaethau. Maent yn cynnig gofod anffurfiol, hygyrch, a di-duedd all fod yn fwy priodol na lleoliad mwy ffurfiol. Rhoddir blaenoriaeth i ddefnydd sydd o fudd i'r gymuned, yn hytrach nag ar gyfer cyfarfodydd busnes.

### A) Defnydd am ddim:

- Gwasanaeth uniongyrchol sydd o fudd i'r gymuned, wedi eu darparu gan CSDd ac asiantaethau partner ee Pwyntiau Siarad, Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, Grwp Cynefin, Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu, Undeb Credyd
- Gweithgareddau sy'n cynnwys cleientiaid neu'r cyhoedd megis grwpiau hunan-gymorth a chefnogi ee Cruse, Cymorth i Ddiodefwyr, Atgyfeirio i Ymarfer Corff, Iechyd Galwedigaethol CSDd, Hafal
- Apwyntiadau 1-1 gyda chleientiaid lle mae gofod cyhoeddus anffurfiol yn briodol
- Syrjeris aelodau etholedig CSDd neu cyfarfodydd 1-1 hefo aelodau o'u wardiau
- Stodinau gwybodaeth, arddangosfeydd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaeth neu ymgyrch
- Digwyddiadau y Gwasanaeth Llyfrgell SUA ee Dechrau Da, grwpiau darllen, digwyddiadau awdur

Ni anogir cyfarfodydd/hyfforddiant caeedig mewnol CSDd – rhoddir blaenoriaeth i ddefnydd agored gyda budd uniongyrchol i'r cyhoedd. Does ond modd bwcio rhain mis neu lai cyn y dyddiad dan sylw.

### B) Graddfa gostyngedig ar gyfer grwpiau cymunedol lleol/elusennau cofrestredig

**£18.00 am sesiwn hanner diwrnod (bore/pnawn/fin nos) yn ystod oriau agor y llyfrgell**

Mae'r gweithgareddau sy'n gymwys ar gyfer y raddfa yma yn cynnwys

- Colegau a grwpiau /sefydliadau addysgol eraill e.e Coleg Cambria, Llandrillo, U3A, Prifysgol Bangor
- Dosbarthiadau hamdden a drefnir gan fudiad ar gyfer ei aelodau ei hun e.e. Clytwaith, gwersi celf
- Syrjeris Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol
- Cyfarfodydd caeedig neu ddigwyddiadau hyfforddiant gan y sector cyhoeddus/tryddydd sector
- Digwyddiad i godi arian gan grwpiau cymunedol ee Ymchwil Cancr, Cymdeithas Alzheimer's

*Ar gyfer llogwyr newydd yn unig: Os bydd 10 sesiwn neu ragor yn cael eu trefnu a'u talu amdanynt o flaenllaw, bydd 20% o ostyngiad. Ni roddir ad-daliad os bydd sesiynnau yn cael eu canslo.*

Codir y raddfa ostyngedig ar wasanaethau a phrosiectau sy'n cael eu hariannu yn uniongyrchol i ddarparu'r gwasanaeth (ee trwy arian grant), neu fe gytunir ar raddfa benodol gyda rheolaeth y llyfrgell.

### C) Graddfa llawn ar gyfer llogwyr masnachol, cwmnïau preifat, grwpiau gwneud elw ayyb

**£40.00 am sesiwn hanner diwrnod (bore/pnawn/fin nos) yn ystod oriau agor y llyfrgell**

e.e. Clarks shoes, Co-op, Nat West Bank

*Os bydd 10 sesiwn neu ragor yn cael eu trefnu a'u talu amdanynt o flaenllaw, bydd 20% o ostyngiad. Ni roddir ad-daliad os bydd sesiynnau yn cael eu canslo.*

Bydd angen trafod gyda rheolaeth y llyfrgell i ddefnyddio'r llyfrgell y tu allan i oriau agor fesul cais.

Dylid trefnu'r llogi trwy gysylltu â'r llyfrgell benodol yn uniongyrchol.

Daw'r polisi hyn i rym ar Ionawr 1<sup>af</sup> 2018 ar gyfer llogwyr newydd, ac o Ebrill 1<sup>af</sup> 2018 ar gyfer llogwyr presennol a rheolaidd.